**Datganiad Diogelu Data Cofnodion Hyfforddiant Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd**

Crynodeb

1. Mae Prifysgol Aberystwyth yn rheolwr data o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 a hefyd y ddeddfwriaeth diogelu data sydd i'w gweithredu yn 2018.

2. Y cynrychiolydd a enwebyd gan y Brifysgol yw:
   Swyddfa'r Is-Ganghellor
   Prifysgol Aberystwyth
   Y Ganolfan Ddelweddu
   Campws Penglais
   Aberystwyth
   Ceredigion
   SY23 3BF

3. Rhaid i'r Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd brosesu gwybodaeth bersonol ynglŷn â phobl sy'n mynd ar gyrsiau hyfforddi er mwyn gallu:
   - Monitro presenoldeb;
   - Cofnodi bod y cwrs hyfforddi wedi'i gwblhau;
   - Dosbarthu tystysgrifau hyfforddi.

4. Nid yw'r data a gesglir ar gyfer hyn yn sensitif, yn ôl diffiniad y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.

5. Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974 yn mynnu bod cyflogwyr yn darparu pa bynnag wybodaeth, cyfarwyddyd, hyfforddiant a goruchwyliaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer sicrhau, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, iechyd a diogelwch eich gweithwyr yn y gwaith. O ganlyniad, y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'r data hwn yw fel ymrwymiad cyfreithiol. Bydd hyn yn sicrhau bod y Brifysgol yn gallu gwella ei threfn rheoli iechyd a diogelwch yn barhaus, a bodloni ei chyfrifoldebau cyfreithiol o ran Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974.

6. Yn achos cynrychiolwyr o blith y myfyrwyr, er mwyn sicrhau sail gyfreithiol ar gyfer cofnodi a phrosesu'r data hwn, rhaid i'r unigolyn roi caniatâd. Gellir rhoi caniatâd drwy archebu lle ar gyfer, a mynychu unrhyw Gwrs Hyfforddi Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd.

Manylion

7. Data personol cynrychiolwyr yw'r wybodaeth a gesglir wrth gofrestru a neilltuo lle ar gyfer yr unigolyn ar gyfer pob cwrs hyfforddi a drefnir. Bydd hyn yn cynnwys manylion fel enw, adran, cyfeiriad e-bost y Brifysgol, rhif ffôn, a chyfeiriad. Defnyddir y data personol ar gyfer:
   - Galluogi cofrestru ar gyfer Cyrsiau Hyfforddi Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd;
   - Cofnodi presenoldeb ar y cwrs a'r nifer a'i cwblhaodd ar System Cofnodion a Derbyniadau Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth (AStRA);

- Dosbarthu tystysgrifau personol i gynrychiolwyr ar ôl iddynt gwblhau pob cwrs yn llwyddiannus.

8. Cedwir data personol ar gyfer cyfnod cyflogaeth a/neu gyfnod astudio'r cynrychiolydd yn y Brifysgol. Bydd hyn yn cynnwys cofnodion presenoldeb, taflenni gwerthuso a sleidiau hyfforddiant pob cwrs. Bydd y papurau asesu a wneir yn ystod pob cwrs yn cael eu cadw am gyfnod o ddeuddeg mis yn dilyn cwblhau'r cwrs, ac fe'i dinistrir yn briodol wedi hynny.

9. Cedwir gwybodaeth am gynrychiolwyr yn ddiogel o fewn i'r Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd, ond gall, weithiau, gael ei rhyddhau i drydydd partïon perthnasol. Yn achos digwyddiad sy'n arwain at anafiadau personol a/neu salwch galwedigaethol, gellir rhannu data ag asiantaethau gorfodi fel yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac Yswirwyr a/neu gynrychiolwyr cyfreithiol y Brifysgol, os ceir achosion o ymgyfreitha ohrewydd anaf personol neu glefydau galwedigaethol. Ni fydd data personol ar gyfer hyn yn cael ei rannu â sefydliadau y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

10. Dim ond os bydd cyrsiau hyfforddi wedi eu darparu gan y Brifysgol sydd wedi eu hachredu gan gorff allanol, e.e. Sefydliad Diogelwch ac Iechyd Galwedigaethol (IOSH), neu wedi eu darparu gan ddarparwr hyfforddi allanol, y bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu â thrydydd partïon.

11. Trwy gofrestru ar gyfer pob cwrs, bydd y cynrychiolydd yn cytuno bod ei wybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio ar gyfer y dibenion uchod.

Gwybodaeth bellach

12. Fel gwrthrych data, mae gennych ystod o hawliau mewn perthynas â'r data mae'r Brifysgol yn ei gadw amdanoch. Ceir rhagor o wybdaeth yma: https://www.aber.ac.uk/cy/infocompliance/policies/dp/data-subject-rights/

13. Ar gyfer ymholiadau pellach ynglŷn â'r uchod, cysylltwch â'r Rheolwr Diogelu Data a Hawlfraint, Dr Jonathan Davies, drwy infocompliance@aber.ac.uk.